Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | | Gofynner am / Please ask for: | **Miss Isabelle Mariani** |
| Fy nghyf / My ref: | | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | **01267 246617** |
| Dyddiad/Date: | **10/03/2022** | E-bost Uniongyrchol / Direct Email: | IMariani@sirgar.gov.uk<br>IMariani@carmarthenshire.gov.uk |

Annwyl Ymgynghorai,

**<u>Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –<br>Cynnig i ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc</u>**

Ddydd Mercher 9 Mawrth 2022, cafodd y cynnig canlynol ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin:

**Dod ag Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors i ben ar 31 Awst 2022.**

Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau i gael eu haddysg ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. Yn hytrach na chael darpariaeth mewn ysgol arbennig, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig -** ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd nad oedd dim gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, bu'r Cyngor yn ystyried y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**
Barn yr awdurdod yw y bydd y cynnig hwn yn cynnal a/neu'n gwella'r safonau presennol o ran Addysg. Mae darparu ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion eraill ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol yn cynnig:

- Eglurder o ran gweledigaeth a'r hyn a ddisgwylir.
- Cydweithio a dysgu ymhlith staff ac arweinwyr, gan rannu arferion effeithiol a gwerthuso'n adeiladol drwy gyfrwng dull hunanwella.
- Llywodraethu colegol drwy bwyllgor rheoli, gan adeiladu arbenigedd mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion disgyblion ag Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol cymhleth neu hirdymor.
- Cwricwlwm arloesol sy'n cael ei arwain gan anghenion, gan rannu arbenigedd ac adnoddau staffio ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a rennir a ddaw yn sgil hyn.

- Hyblygrwydd o ran darparu staffio i ddiwallu anghenion disgyblion ac i arwain meysydd strategol mewn modd gwasgaredig.
- Arbedion maint, gan ddarparu profiadau dysgu a rennir i ddisgyblion.
- Cymuned ddysgu fwy i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a dysgu mewn amgylchedd diogel, ysbrydoledig ond sydd hefyd yn dangos empathi.
- Darpariaeth i ddysgwyr mewn amgylcheddau Ymwybodol o Drawma lle mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i sicrhau bod anghenion llesiant, cymdeithasol, galwedigaethol ac academaidd disgyblion yn sail i'r holl brofiadau dysgu.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**
Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol, yn ogystal â'r galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir.

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd yn y galw gan ysgolion prif ffrwd am leoliadau arbenigol o ran Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'r galw mwyaf ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 9 a Chyfnod Allweddol 4. Drwy greu Uned Cyfeirio Disgyblion ar safle Rhydygors bydd mwy o fynediad i ysgolion ardal Caerfyrddin ac ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin o'r sir nad ydynt efallai wedi llwyddo i gael mynediad i Unedau Cyfeirio Disgyblion oherwydd y lleoliad.

Gyda'r niferoedd presennol bydd y ddarpariaeth gynradd yn cael ei throsglwyddo i'r Uned Cyfeirio Disgyblion cynradd, sef Canolfan Bro Tywi, sydd ar yr un safle â'r ysgol. Bydd pedwar dosbarth ar gyfer disgyblion CA3 a CA4 yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion newydd.

**Adnoddau addysg**
Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae nifer o ffactorau wedi cael eu hystyried a’r brif flaenoriaeth yw gwella deilliannau i ddysgwyr a darparu gwasanaeth teg i bob dysgwr y gallai fod angen mynediad at ddarpariaeth Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol arbenigol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei ariannu yn unol â phroses gyllidebol gyfredol y Sir ar gyfer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion eraill gan ystyried nifer y disgyblion a chost y ddarpariaeth. Bydd y gyllideb bresennol ar gyfer ysgol Rhydygors,sy’n rhan o’r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion, yn trosglwyddo i'r Uned Cyfeirio Disgyblion a reolir yn ganolog. Petai unrhyw arian yn cael ei arbed yn y dyfodol byddai hyn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth addysg.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**
Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Isabelle Mariani

Yn gywir,

Gareth Morgans
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP